



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040

Papur Esboniadol – Ardaloedd Gwledig

Rhagfyr 2019

## Pam ydym ni wedi cyhoeddi'r papurau esboniadol hyn?

Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Drafft, awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid cael mwy o fanylion yn dangos sut mae'r FfDC wedi cael ei baratoi. I gynorthwyo rhanddeiliaid rydym wedi llunio casgliad o bapurau esboniadol er mwyn dangos y dystiolaeth sy'n ategu'r FfDC drafft. Mae'r papurau hyn yn cynnwys:

- Y Strategaeth Ofodol
- Asesiadau'r FfDC
- Hynt y FfDC yn y dyfodol
- Y Rhanbarthau
- Ardaloedd Gwledig
- Yr Angen am Dai
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Phorthladdoedd
- Casgliad o dystiolaeth

## Beth yw'r ddogfen hon?

Cafodd y papur esboniadol hwn ei baratoi i gynorthwyo darllenwyr y FfDC drafft i ddeall sut mae'n ceisio ymdrin â materion gwledig ar draws Cymru, a thynnir sylw at y dystiolaeth allweddol sydd wedi cyfarwyddo elfennau gwledig y cynllun.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r papur hwn yn nodi strategaethau, polisiau a chanlyniadau ymchwil Llywodraeth Cymru – sef rhai sydd wedi cyfarwyddo'r gwaith o ddatblygu Polisi 4 y FfDC: Cefnogi Cymunedau Gwledig (ceir crynodeb isod). Mae'n disgrifio sut a pham mae'r FfDC Drafft yn ceisio ymdrin â materion gwledig ar draws Cymru, a sut mae canllawiau presennol ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol yn ymdrin mewn modd cynhwysfawr â materion cynllunio gwledig. Yna, ceir gwybodaeth am yr ystod o gyfarwyddiadau ymarfer sydd wedi ennill eu plwyf, lle ceir mwy o fanylion am weithredu'r polisiau hyn. Caiff y dystiolaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Rhanbarthau ac Ardaloedd Gwledig ei nodi yn Adran 6.

## 2. Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Drafft

2.1 Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi elfennau gwledig y FfDC.

2.2 Nod y FfDC yw creu lleoedd gwledig llewyrchus lle gellir cael mynediad at gartrefi, swyddi a gwasanaethau. Mae'r FfDC yn cydnabod bod ardaloedd gwledig yn amrywiol, gyda chymunedau ffyniannus a chymunedau o amddifadedd, a bod ganddynt hanes a diwylliannau gwahanol. Ymhellach, mae'r FfDC yn cydnabod bod nifer o heriau'n wynebu ardaloedd gwledig, yn cynnwys newid hinsawdd, yr economi, tai, gwasanaethau, symud yn y boblogaeth, a'r Gymraeg (FfDC, tt.20-21). Hefyd, mae Brexit yn fater o bwys wrth symud ymlaen, gan fod cyllid amaethyddol a rhaglenni adfywio'n feysydd polisi cyhoeddus pwysig sydd wedi cael eu llywio gan bolisiau a chyllid Ewropeaidd ehangach (FfDC t.17).

2.3 Mae'r FfDC yn nodi 11 o ganlyniadau sy'n gyd-ddatganiad o ble mae Llywodraeth Cymru yn dymuno bod yn 2040. Uchelgeisiau cyffredinol sy'n seiliedig ar egwyddorion cynllunio cenedlaethol Polisi Cynllunio Cymru a chanlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy yw canlyniadau'r FfDC. Mae pob un o 11 canlyniad y FfDC yn berthnasol i ardaloedd gwledig. Mae'r FfDC (FfDC t.18) yn gweld Cymru wledig lle mae pobl yn byw:

- ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
- mewn lleoedd gwledig llewyrchus lle gellir cael mynediad at gartrefi, swyddi a gwasanaethau
- mewn rhanbarthau arbennig sy'n taclo anghydraddoldeb iechyd ac anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol trwy dwf cynaliadwy
- mewn lleoedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ffocws ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
- mewn lleoedd lle caiff ffyniant, arloesi a diwylliant eu hyrwyddo
- mewn lleoedd lle ceir teithio cynaliadwy
- mewn lleoedd lle ceir seilwaith digidol o'r radd flaenaf
- mewn lleoedd sy'n lleihau llygredd ac yn rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy
- mewn lleoedd lle ceir ecosystemau bioamrywiol, cydnerth a chysylltiedig
- mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio.

2.4 Mae'r FfDC yn cydnabod bod ardaloedd gwledig yn bwysig fel darparwyr bwyd, ynni, twristiaeth, gweithgareddau hamdden, ac adnoddau mwynol, ac y dylid diogelu ardaloedd sydd wedi'u dynodi ar sail eu tirwedd neu eu pwysigrwydd ecolegol rhag datblygiadau amhriodol. Mae Strategaeth Ofodol y FfDC yn canolbwyntio twf ar raddfa fawr ar ardaloedd trefol, gan gyfeirio datblygiadau oddi wrth gefn gwlad a thir amaethyddol cynhyrchiol (FfDC t.24).

2.5 Ymhellach, mae'r FfDC yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r economi wledig, ac yn cydnabod y dylai'r system gynllunio ymateb trwy gynorthwyo cymunedau gwledig a hwyluso datblygiadau newydd a chyfluoedd arallgyfeirio priodol. Nod y FfDC yw sicrhau cynnydd mewn tai a thwf yn yr economi, er mwyn cynnal a gwella mynediad at wasanaethau, a denu a dal gafael ar y boblogaeth oedran gweithio.



## Polisi 4 y FfDC Drafft – Cynorthwyo Cymunedau Gwledig (FfDC t.29)

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a thwf cymesur priodol mewn trefi a phentrefi gwledig.

Mae'n well cynllunio dyfodol ardaloedd gwledig ar lefel ranbarthol a lleol. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynllunio'n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cymunedau gwledig o ran tai, trafndiaeth, busnesau, gwasanaethau ac arallgyfeirio yn y sector amaethyddol.

- 2.6 Mae'r FfDC yn pennu Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fel cyfryngau polisi priodol i gefnogi twf gwledig, cadwraeth wledig a diogelu ardaloedd gwledig. Dylai Cynlluniau Datblygu sicrhau bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn gallu cael mynediad at swyddi, gwasanaethau a seilwaith cymdeithasol o raddfa briodol.
- 2.7 Mae'r FfDC yn nodi ardaloedd twf rhanbarthol. Oddi mewn i'r ardaloedd hyn, dylid cefnogi canolfannau rhanbarthol fel prif ffocws ar gyfer gweithgareddau. Er enghraifft (mewn perthynas â chanolfannau â dalgylch gwledig) Caerfyrddin, Aberystwyth, Llandrindod a'r Drenewydd (FfDC t.24 a map Strategaeth Ofodol y FfDC t.25).
- 2.8 Ymhellach, mae cymunedau gwledig angen mynediad at farchnadoedd swyddi a marchnadoedd economaidd ehangach (FfDC t.29). Dylid gwneud penderfyniadau ynghylch datblygu economaidd rhanbarthol a gwasanaethau a seilwaith trafndiaeth ar bob lefel gan ystyried anghenion pob rhan o Gymru.
- 2.9 Mae economïau gwledig cryf yn cynnal cymunedau sefydlog a chydnerth, gan leihau'r ddibyniaeth ar nifer fechan o ganolfannau economaidd mwy. Dylid rhoi blaenoriaeth i weithgareddau

economaidd a chanddynt gysylltiadau cryf ag ardaloedd gwledig, er enghraifft gweithgareddau'r economi sylfaenol fel prosesu bwyd a diod, a thwristiaeth a hamdden, a chynhyrchu ynni, yr economi amgylcheddol a busnesau sy'n ategu ffermio, coedwigaeth a gweithgareddau economaidd gwledig o fath arall. Mae'r ddarpariaeth well o safbwynt band eang yn y Gymru wledig yn cefnogi busnesau mwyfwy amrywiol (FfDC t.29).

- 2.10 Dylai cynlluniau datblygu gefnogi anghenion eu cymunedau gwledig gyda pholisïau cadarn ac uchelgeisiol. Pan gaiff twf ei nodi, dylai fod yn gymesur ag anghenion y cymunedau a'r ardaloedd lleol, a dylid cyflwyno tystiolaeth ynghylch y twf hwn yn y cynllun datblygu (FfDC t.29).
- 2.11 Dylai'r rhai sy'n paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol, ac yn gwneud penderfyniadau ar eu sail, fod yn hyderus o ran nodi beth mae 'gwledig' yn ei olygu. Mae ystyriaethau gwahanol yn berthnasol i faterion gwledig ger ardaloedd trefol mawr a materion gwledig mewn lleoliadau hynod wledig. Efallai na fydd yn briodol rhoi polisïau gwledig ar waith i'r un graddau yn y ddau le (FfDC t.29).
- 2.12 Mae polisïau o fewn y FfDC sy'n cefnogi canolfannau gwledig, yn darparu cartrefi fforddiadwy, yn cefnogi cymunedau trwy wneud defnydd o dir cyhoeddus, yn cefnogi parthau gweithredu symudol, ac yn darparu seilwaith gwefru cerbydau trydan, i gyd yn berthnasol i ardaloedd gwledig Cymru. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol sicrhau yr ymdrinnir â'r materion hyn (FfDC t.29).
- 2.13 Mae'r FfDC yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r economi wledig, ac yn cydnabod y dylai'r system gynllunio ymateb trwy gefnogi arallgyfeirio a datblygiadau newydd priodol.

### 3. Sut mae'r FfDC yn ceisio ymdrin ag ardaloedd gwledig a sut mae tystiolaeth yn berthnasol i hyn

- 3.1 Fframwaith ar gyfer ble i ganolbwyntio newidiadau ar raddfa fawr a datblygiadau cenedlaethol bwysig yw strategaeth ofodol y FfDC drafft. Mae'r strategaeth yn annog patrymau datblygu cynaliadwy ac effeithlon, sy'n seiliedig ar gyd-leoli cartrefi, swyddi, gwasanaethau ac adnoddau, ac sy'n cyfrannu at amcanion yn ymwneud â datgarboneiddio a bioamrywiaeth. Er mwyn gwireddu'r egwyddorion hyn, mae'r strategaeth wedi ceisio pennu dinasoedd a threfi mawr yng Nghymru fel prif ardaloedd twf a datblygu. Y tu allan i'r ardaloedd hyn, bydd twf cymesur trefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig yn cael ei gefnogi pan fo hynny'n diwallu anghenion lleol ac yn ategu twf mewn trefi a dinasoedd mwy. Mae'r FfDC yn pennu ardaloedd twf rhanbarthol y tu allan i'r clystyrau trefol mawr lle dylid canolbwyntio datblygu o'r fath. Mae hyn yn cynnwys aneddiadau sy'n gwasanaethu ardaloedd gwledig eu natur yn bennaf.
- 3.2 Mae Polisi 4 y FfDC yn cydnabod pwysigrwydd ardaloedd gwledig yng Nghymru ac yn cefnogi twf cynaliadwy mewn cymunedau gwledig, gan adlewyrchu amcanion cyffredinol y strategaeth ofodol. Er bod nifer o heriau'n wynebu ardaloedd gwledig – yn cynnwys newid hinsawdd, Brexit, newidiadau economaidd a demograffig, cadwraeth cefn gwlad, a darparu/mynediad at seilwaith a gwasanaethau – yn y rhan fwyaf o achosion ystyrir mai'r ffordd orau o gynllunio'r rhain yw trwy wneud hynny ar lefel ranbarthol a lleol. Er nad yw'r FfDC drafft o angenrheidrwydd yn ymdrin yn fanwl â mwyafrif y materion gwledig, caiff y materion hyn eu cydnabod a'u trafod yn gynhwysfawr mewn canllawiau sydd i'w cael eisoes ym Mholisi Cynllunio Cymru ac ar ffurf Cyngor Technegol, fel y nodir yn adran 4 isod. Dylai'r materion hyn gael eu harwain gan benderfyniadau ar lefel ranbarthol a lleol mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol a thrwy gyfrwng prosesau rheoli datblygu.

### 4. Polisi cynllunio presennol a chynghor i ardaloedd gwledig

#### 4.1 Polisi Cynllunio Cymru (2018)

- 4.1.1 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yw'r polisi cynllunio defnydd tir cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae PCC yn berthnasol i bob agwedd ar y sbectrwm cynllunio ac mae'n sail i bob Cynllun Datblygu. Caiff ei ddefnyddio gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i gyfarwyddo polisiau a neilltuo defnydd tir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'n ystyriaeth hanfodol i benderfynwyr wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio unigol. Mae'r FfDC yn adeiladu ar PCC trwy ddarparu cyd-destun polisi gofodol ar gyfer materion cynllunio o arwyddocâd cenedlaethol. Mae'r agweddau canlynol ar PCC yn ymdrin â materion sy'n wynebu ardaloedd gwledig neu fathau o ddatblygiadau a allai gael eu lleoli yno.

#### Creu lleoedd mewn ardaloedd gwledig

- 4.1.2 Dylai'r system gynllunio geisio creu lleoedd cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig i hyrwyddo llesiant.
- 4.1.3 Yn unol â chanlyniadau cynaliadwyedd a chreu lleoedd, dylai ardaloedd gwledig gael eu gwarchod, a lle bo hynny'n bosibl, eu gwella er lles eu gwerth ecolegol, daearegol, ffisiograffig, hanesyddol, archaeolegol, diwylliannol ac amaethyddol, ac er lles eu tirweddau a'u hadnoddau naturiol. Dylid cydbwysu'r gwarchod hwn yn erbyn anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau gwledig ac ymwelwyr.
- 4.1.4 Rhaid i lleoedd gwledig allu addasu a bod yn gydnerth er mwyn iddynt allu cynnal cymunedau llewyrchus ac argaeledd gwasanaethau. Mae ardaloedd gwledig yn wynebu heriau fel effeithiau newid hinsawdd, ond gallant helpu i liniaru effeithiau o'r fath trwy warchod dalfeydd carbon a thrwy fod yn lleoliadau ar gyfer ffynonellau ynni adnewyddadwy, yn unol â nod llesiant Cymru Gydnerth.

- 4.1.5 Mewn ardaloedd gwledig, prin yw'r cyfleoedd i leihau'r defnydd o geir a gwneud mwy o gerdded a beicio a defnyddio mwy o drafnidiaeth gyhoeddus. Dylai'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd gael eu lleoli mewn aneddiadau sydd â mynediad da at ddulliau teithio heblaw ceir. Dylai datblygiadau fanteisio ar ganlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol, a lle bo modd, gynnig cysylltiadau teithio llesol i aneddiadau er mwyn lleihau'r angen i deithio.
- 4.1.6 Dylai canolfannau gwasanaethau lleol cynaliadwy, a chlystyrau o aneddiadau llai, gael eu dynodi fel lleoliadau a ffefrir ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd, yn cynnwys ar gyfer darparu tai a gwaith.
- 4.1.7 Rhaid i'r system gynllunio hyrwyddo canolfannau manwerthu a chanolfannau masnachol hyfyw – rhai trefol a rhai gwledig fel ei gilydd – fel y lleoliadau mwyaf cynaliadwy i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu a chynnal busnes ynddynt.

### Yr economi wledig

- 4.1.8 Mae economi wledig gref yn hanfodol i gefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a llewyrchus. Mae creu mentrau newydd ac ehangu busnesau sydd i'w cael eisoes yn cefnogi twf a sefydlogrwydd mewn ardaloedd gwledig.
- 4.1.9 Dylai Awdurdodau Cynllunio neilltuo safleoedd gwledig newydd mewn cynlluniau datblygu ar gyfer datblygu economaidd.
- 4.1.10 Ar y cyfan, dylai safleoedd datblygu – ac eithrio datblygu amaethyddol ac arallgyfeirio gwledig, y mae meini prawf ar wahân yn berthnasol iddynt – gael eu lleoli oddi mewn i, neu wrth ymyl, ffiniau aneddiadau, yn ddelfrydol lle ceir darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus.
- 4.1.11 Ni ddylai absenoldeb safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd atal cynigion ar gyfer mentrau ar raddfa fach mewn, neu wrth ymyl,

aneddiadau gwledig bach. Dylid defnyddio polisiau seiliedig ar feini prawf mewn cynlluniau datblygu i asesu cynigion o'r fath.

### Arallgyfeirio gwledig

- 4.1.12 Mae arallgyfeirio'n cryfhau'r economi wledig ac yn dod â ffyniant a gwaith ychwanegol i gymunedau.
- 4.1.13 Dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu agwedd gadarnhaol at arallgyfeirio. Gall gweithgareddau busnes bach a leolir yn gynaliadwy ar ffermydd arwain at ffrydiau incwm ychwanegol pwysig.
- 4.1.14 Ymhellach, gall arallgyfeirio gyfrannu at hyfywedd cymunedau trwy ddarparu ffocws i fywyd yn y gymuned a chanolfannau ar gyfer gweithgareddau economaidd. Gall arallgyfeirio gynnwys gweithgareddau amaethyddol a gweithgareddau nad ydynt yn rhai amaethyddol, yn amrywio o brosesu amaethyddol i dwristiaeth a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.

### Twristiaeth

- 4.1.15 Mae twristiaeth yn hanfodol o ran ffyniant economaidd a chreu swyddi mewn sawl rhan o Gymru, a gall fod yn sbardun ar gyfer adfywio, gwelliannau yn yr amgylchedd adeiledig a diogelu'r amgylchedd.
- 4.1.16 Mae PCC yn annog twristiaeth sy'n cyfrannu at ddatblygu economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio trefol, cynhwysiant cymdeithasol, ac ymdeimlad o le, ac sy'n cefnogi anghenion ymwelwyr a chymunedau lleol.

### Telathrebu

- 4.1.17 Mae PCC yn hyrwyddo datblygu seilwaith telathrebu modern a chyflym i gefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol.

- 4.1.18 Dylid cynllunio seilwaith telathrebu'n ofalus mewn tirweddau sensitif ac ardaloedd dynodedig eraill. Mae ardaloedd gwledig yn dioddef yn economaidd ac yn gymdeithasol oherwydd diffyg signal ffonau symudol; mae cynllunio rhagweithiol, ond ystyriol, yn bwysig.
- 4.1.19 Dylai cynlluniau datblygu bennu polisiau ar gyfer cyflawni datblygiadau telathrebu.
- 4.1.20 Dylai gweithredwyr ffonau symudol rannu mastiau er mwyn gwneud yn fawr o'r seilwaith a lleihau'r effeithiau.
- 4.1.21 Mae mynediad at fand eang cyflym iawn mewn ardaloedd gwledig yn hanfodol i fusnesau a dibenion cymdeithasol. Dylai polisiau Cynlluniau Datblygu ymdrin â'r angen am seilwaith band eang.

### **Ynni adnewyddadwy a charbon isel**

- 4.1.22 Dylai'r system gynllunio sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaethau ynni, gan wneud yn fawr o fuddion economaidd a chymunedol, tra'n lleihau effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol.
- 4.1.23 Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi ac arwain datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel er mwyn sicrhau bod modd gwneud yn fawr o botensial eu hardal.
- 4.1.24 Dylid mabwysiadu dull cynllunio integredig o safbwynt datblygiadau ynni a rhwydwaith y grid.
- 4.1.25 Mae PCC yn cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel cymunedol ar raddfa fach. Er enghraifft, rhwydweithiau gwres ardal, ynni gwynt ar raddfa fach, cyd-leoli datblygiadau a chyfuno gwres a phŵer

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

## **4.2 Nodiadau Cyngor Technegol**

- 4.2.1 Dylid darllen Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) ar y cyd â *Pholisi Cynllunio Cymru (PCC)* sy'n pennu polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Dylai awdurdodau cynllunio Cymru ystyried PCC a TAN wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Gallant fod yn hollbwysig i benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio unigol, a bydd Arolygwyr a Llywodraeth Cymru yn eu hystyried wrth benderfynu ar apeliadau a cheisiadau cynllunio a alwyd i mewn.

### **Nodyn Cyngor Technegol 6 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)**

- 4.2.2 Mae'n hyrwyddo economi wledig gref ar gyfer cynnal cymunedau gwledig cynaliadwy a llewyrchus, cynhwysiant cymdeithasol a darpariaeth gwasanaethau.
- 4.2.3 Mae'n annog Awdurdodau Cynllunio Lleol i fabwysiadu agwedd gadarnhaol at ddatblygu mewn ardaloedd gwledig, a darparu safleoedd digonol a pholisiau seiliedig ar feini prawf ar gyfer gwaith a marchnadoedd a thai fforddiadwy yn eu cynlluniau datblygu.
- 4.2.4 Mae'n cefnogi arallgyfeirio gwledig (yn cynnwys ar ffermydd) er mwyn darparu cyfleoedd gwaith, gwella ffyniant a lleihau'r angen i deithio.
- 4.2.5 Mae'n annog datblygiad hunangyflogaeth a microfusnesau a darpariaeth seilwaith cyfathrebu newydd sy'n hanfodol o ran cefnogi twf economaidd mewn cymunedau a busnesau, galluogi mynediad at wasanaethau, a lleihau'r angen i deithio.
- 4.2.6 Rhaid cyfiawnhau datblygiadau preswyl ynysig yn y cefn gwlad agored. Mae TAN6 yn diffinio Anheddau Mentrau Gwledig. Dyma eithriad i'r polisi sy'n cyfyngu ar ddatblygu cyffredinol yng nghefn gwlad, lle gall gweithwyr mentrau gwledig (yn cynnwys newydd-ddyfodiaid i ffermio) fyw yn, neu wrth ymyl, eu lle gwaith.

4.2.7 Mae'n annog Awdurdodau Cynllunio Lleol i fabwysiadu agwedd gadarnhaol at gynigion sy'n gwella hyfywedd, hygyrchedd neu werth cymunedol gwasanaethau a chyfleusterau a geir eisoes, fel siopau, swyddfeydd post a thafarndai gwledig.

[https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-6-cynllunio-ar-gyfer-cymunedau-gwledig-cynaliadwy?\\_ga](https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-6-cynllunio-ar-gyfer-cymunedau-gwledig-cynaliadwy?_ga)

### **Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd (2014)**

4.2.8 Mae'n cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau economaidd mewn ardaloedd gwledig, o ddsbarthiadau cyflogaeth B1, B2 a B8 i amaethyddiaeth, coedwigaeth, twristiaeth a hamdden.

4.2.9 Mae'n cefnogi dull dilyniannol o weithredu mewn perthynas â safleoedd cyflogaeth newydd mewn cynlluniau datblygu er mwyn sicrhau eu bod wedi'u lleoli'n gynaliadwy, ond mae'n cydnabod efallai y bydd rhai busnesau sy'n bodoli eisoes angen ehangu ble y maent mewn lleoedd llai cynaliadwy. Dylid llunio polisi seiliedig ar feini prawf i ymdrin â darpariaeth cyflogaeth heb ei neilltuo.

4.2.10 Mae'n cefnogi darparu band eang a seilwaith technoleg o fath arall er mwyn cefnogi economïau gwledig.

4.2.11 Mae'n cefnogi ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig sydd i'w cael eisoes, pan fônt yn cwrdd ag anghenion ardaloedd gwledig o ran datblygu masnachol a diwydiannol, a thwristiaeth, chwaraeon a hamdden.

<https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-23-datblygu-economaidd>

### **Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth (1997)**

4.2.12 Mae'n cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i economi Cymru a'r cyfraniad a wna at gyflogaeth mewn amrywiaeth eang o alwedigaethau, gan ddod â manteision i economïau lleol mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd.

4.2.13 Dylai cynlluniau datblygu ymdrin â materion a godir gan dwristiaeth, a phan fo hynny'n briodol dylent helpu i alluogi cyfleusterau yng nghefn gwlad neu mewn ardaloedd dynodedig, neu gefnogi prosiectau ar raddfa fwy neu brosiectau arloesol yn y lleoliadau iawn. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i gynigion mewn ardaloedd sensitif neu ardaloedd dynodedig.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan13-twristiaeth.pdf>

### **Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon a Hamdden (2009)**

4.2.14 Mae'n cefnogi darparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden a manau agored anffurfiol, yn ogystal â diogelu cyfleusterau sydd i'w cael eisoes mewn ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru.

4.2.15 Mewn manau gwledig, dylid lleoli cyfleusterau mewn, neu wrth ymyl, aneddiadau. Byddai angen cyfiawnhad arbennig ar gyfer unrhyw ddatblygiadau arfaethedig yn y cefn gwlad agored. Efallai y bydd cynigion sy'n gysylltiedig ag arallgyfeirio ar ffermydd yn cael eu hystyried mewn modd ffafriol.

4.2.16 Mae'n annog mynediad i gefn gwlad er mwyn cefnogi'r economi wledig, gwasanaethau cymunedol a thrafnidiaeth gyhoeddus, a phan fo hynny'n gysylltiedig â hamdden, fel ffordd o wella iechyd a llesiant.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan16-chwaraeon-hamdden-mannau-agored.pdf>



## **Nodyn Cyngor Technegol 20: Y Gymraeg (2017)**

- 4.2.17 Mae Adran 62 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn mynnu y dylai Arfarniad Cynaliadwyedd Cynllun Datblygu gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn yr ardal.
- 4.2.18 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys y nod o gael "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu". Wrth baratoi Cynlluniau Datblygu, rhaid rhoi ystyriaeth i lesiant.
- 4.2.19 Dylai Cynlluniau Datblygu asesu effeithiau cronol posibl y datblygiad ar y Gymraeg ar draws ardal y cynllun. Gellir diffinio ardaloedd sy'n sensitif o safbwynt y Gymraeg yn y cynllun datblygu.
- 4.2.20 Gallai'r gymysgedd briodol o ddefnyddiau tir a neilltuo safleoedd er mwyn cefnogi twf fod o fudd i'r Gymraeg.
- <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan20-cymraeg.pdf>

## **Nodyn Cyngor Technegol 4: Canolfannau Manwerthu a Chanolfannau Masnachol (2016)**

- 4.2.21 Mae'n hyrwyddo canolfannau manwerthu a chanolfannau masnachol trefol a gwledig fel y lleoliadau mwyaf cynaliadwy i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu a chynnal busnes. Dylid defnyddio prawf dilyniannol wrth leoli datblygiadau manwerthu.
- 4.2.22 Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol gwledig asesu'r angen am wasanaethau ychwanegol yn eu hardaloedd a nodi'r rhain yn eu Cynlluniau Datblygu.

4.2.23 Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol lunio strategaeth manwerthu ar gyfer eu hardal, yn cynnwys hierarchaeth leol yn dosbarthu canolfannau manwerthu a chanolfannau masnachol, fel y gellir rhoi polisiâu priodol ar waith mewn perthynas â'r canolfannau hynny.

4.2.24 Dylai cynlluniau bro ac uwchgynlluniau nodi gweledigaethau ar gyfer canolfannau mewn ardaloedd trefol a gwledig.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan4-datblygiadau-manwerthru-masnachol.pdf>

## **5. Arweiniad Ymarfer Gwledig**

### **Arweiniad Ymarfer ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig (2011)**

- 5.1 Mae'r Arweiniad Ymarfer ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig yn cyflwyno cyngor manwl ar weithredu TAN 6 Anheddau Mentrau Gwledig.
- 5.2 Mae'r arweiniad hwn yn cynorthwyo ymgeiswyr ac Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddeall natur yr eithriad anheddau mentrau gwledig, yn nodi'r broses ar gyfer cyfiawnhau ac asesu cynigion, ac yn cyflwyno cyngor ymarferol sy'n berthnasol i geisiadau cynllunio.
- 5.3 Mae'r arweiniad yn nodi beth yn union yw annedd menter wledig o ran y fenter gyfatebol, pa dystiolaeth sy'n angenrheidiol i ategu cais, a beth sydd ei angen i ddiwallu'r profion allweddol.
- <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/anheddau-mentrau-gwledig-canllawiau.pdf>

## Arweiniad Ymarfer ar gyfer Datblygiadau Un Blaned (2012)

- 5.4 Mae'r arweiniad hwn yn disgrifio'r gofynion cynllunio ar gyfer Datblygiadau Un Blaned yn y cefn gwlad agored. Mae'n ganllaw ategol i Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, sy'n nodi'r polisi ar gyfer Datblygiadau Un Blaned.
- 5.5 Mae'r arweiniad yn darparu cymorth ymarferol i ymgeiswyr sy'n llunio cynigion ar gyfer Datblygiadau Un Blaned yn y cefn gwlad agored ac i awdurdodau cynllunio sy'n asesu'r cynigion hyn. Mae Datblygiadau Un Blaned yn y cefn gwlad agored yn enghraifft o ddatblygu cynaliadwy, bach ei effaith, a ddylai ddarparu ar gyfer anghenion sylfaenol y preswylwyr o ran incwm, bwyd, ynni a gwastraff. Mae'r arweiniad ymarfer yn cynnig esboniad manwl o ofynion cynlluniau rheoli cynigion a sut dylid monitro'r rhain wrth i'r datblygiad fynd yn ei flaen. Gall Datblygiadau Un Blaned fod naill ai'n gartrefi ar eu pen eu hunain, yn gymunedau cydweithredol neu'n aneddiadau mwy; ond fel arfer, byddant ar raddfa fach.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan6-cymunedau-gwledig-cynaliadwy.pdf>

## 6. Astudiaeth Ymchwil Rhanbarthau ac Ardaloedd Gwledig (2019)

- 6.1 Diben yr astudiaeth yw datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer pob un o ranbarthau'r FfDC, er mwyn pennu ardaloedd gwledig cyffredinol ynghyd â'r materion a'r ardaloedd gofodol y dylai polisïau'r FfDC ganolbwyntio arnynt. Cynhaliwyd gweithdai rhanbarthol a gwledig ledled Cymru yn ystod y cam casglu tystiolaeth, ac yna cynhaliwyd dadansoddiad SWOT (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau). Ceir crynodeb o'r casgliadau isod.

## Casgliadau'r Astudiaeth Ymchwil

- 6.2 Prin yw'r angen am bolisïau cynllunio pellach yn ymwneud yn benodol ag ardaloedd gwledig, y tu hwnt i'r hyn mae'r system gynllunio'n ei gynnig eisoes ym Mholisi Cynllunio Cymru ac ar ffurf Nodiadau Cyngor Technegol.
- 6.3 Fodd bynnag, gall y FfDC helpu'r system gynllunio i gefnogi datblygiadau a chanlyniadau cadarnhaol mewn ardaloedd gwledig.
- 6.4 Isod ceir crynodeb o gasgliadau'r astudiaeth. Dylai'r FfDC ganolbwyntio ar y canlynol:
- Mewn ardaloedd gwledig dylid cysylltu tai ac aneddiadau newydd gyda chyfleusterau cymunedol, gwasanaethau a chyflogaeth trwy gyfrwng ffurfiau trafndiaeth cynaliadwy.
  - Dylid diffinio ardaloedd twf ac ystyried darparu seilwaith ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, er mwyn cefnogi datblygu cynaliadwy.
  - Dylid cysylltu asedau twristiaeth, yr amgylchedd naturiol a chyrchfannau ymwelwyr â ffurfiau trafndiaeth cynaliadwy, gyda mynediad rhwydd ar droed, ar feic, ar drafnidiaeth gyhoeddus ac yna mewn car.
  - Gan gydnabod bod gwahaniaethau i'w cael ar draws rhanbarthau, dylid hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg trwy bennu polisïau ac ardaloedd â blaenoriaeth a fyddai'n cynorthwyo i atal colledion o ran y Gymraeg a'r diwylliant, ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer twf.
  - Dylid blaenoriaethu seilwaith digidol mewn ardaloedd gwledig er mwyn hwyluso pobl i weithio gartref, yn ogystal â hwyluso cydlyniant cymunedol ac addysg ar-lein a lleihau'r angen i deithio.

- Dylid cysylltu cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd gwledig â seilwaith a chreu lleoedd, gan gysylltu cymunedau a chyfleusterau addysg â meysydd gwaith.
- Dylai seilwaith trafndiaeth gysylltu pobl â safleoedd a gwasanaethau allweddol a pharatoi'r rhwydwaith at y dyfodol gyda seilwaith cerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig.
- Dylid rhoi dull integredig ar waith wrth ymdrin â datblygiadau ynni, lle caiff anghenion cymunedau lleol, capasiti'r grid, hygyrchedd ac ystyriaethau rheoli tir eu hystyried.
- Dylai cynllunio gefnogi dull hyblyg o ymdrin â'r diwydiant amaethyddol a datblygiadau amaethyddol, gan alluogi ffurfiau priodol ar arallgyfeirio.
- Dylid canfod ble mae angen seilwaith i gefnogi arallgyfeirio gwledig ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

<https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-astudiaeth-o-ranbarthau-ac-ardaloedd-gwledig>

## Tystiolaeth allweddol o fath arall

### Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Mawrth 2019)

- Mae'n hyrwyddo twf economi gynhwysol, gan ledaenu cyfleoedd a llesiant tra'n cyfrannu at gyflawni Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol.
- Mae'n cefnogi twf a datblygiad yr economi wledig. Mae'n cydnabod pwysigrwydd yr economi sylfaenol mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig y diwydiant bwyd a'r diwydiant twristiaeth, ac mae wedi ymrwmo i hwyluso arallgyfeirio gwledig a chefnogi anghenion busnes.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf>

### Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol (2017)

Dyma strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru lle caiff yr ymrwymadau allweddol yn ein Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen, eu gosod mewn cyd-destun hirdymor. Mae'n nodi sut bydd yr ymrwymadau hyn yn cyd-fynd â gwaith gwasanaethau cyhoeddus ehangach Cymru er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer sicrhau ffyniant i bawb.

Amcanion Llywodraeth Cymru yn Ffyniant i Bawb yw lleihau ein hallyriadau carbon, hyrwyddo teithio llesol, annog ffyrdd mwy egniol o fyw, cynnal a chadw cyfleusterau lleol, a gwneud yn fawr o'n gwariant ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r FfDC yn darparu fframwaith ar gyfer y system gynllunio i siapio lleoedd a thwf trefol er mwyn cyflawni'r amcanion hyn.

Mae'n cynorthwyo busnesau gwledig i arallgyfeirio a manteisio ar gadwyni cyflenwi, yn cynnwys yr angen i gynyddu eu capasiti prosesu ac ychwanegu mwy o werth.

Cefn gwlad yw un o asedau gorau Cymru, ac mae wedi siapio ein heconomi dros ganrifoedd. Heddiw, mae'n cynnal amrywiaeth o sectorau, yn cynnwys sector twristiaeth a hamdden llewyrchus, diwydiant amaethyddol sy'n cynnal cymunedau gwledig hyfyw, a sector bwyd a diod 'cartref' o'r radd flaenaf.

Yn sgil daearyddiaeth Cymru ac anghenion cymunedau gwledig prin eu poblogaeth, bydd ceir yn parhau i fod yn bwysig. Ond mae pwerau newydd dros fysiau a'r fasnachfaint rheilffyrdd yn golygu y gallwn roi dull mwy cydgysylltiedig ar waith ar draws yr holl fathau o drafnidiaeth, gan ein galluogi i leihau ein hallyriadau carbon, hyrwyddo teithio llesol, a gwneud yn fawr o'n gwariant ar drafnidiaeth gyhoeddus.

<https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol>

### Cynllun Gweithredu ar Ffonau Symudol (2017)

- Mae'n dangos sut bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant ffonau symudol ac Ofcom i ddarparu gwell cysylltedd telathrebu er mwyn cwrdd ag anghenion pobl a busnesau ledled Cymru.
- Mae'n cynnwys cam gweithredu allweddol i ymestyn unrhyw ymyrraeth gyhoeddus sy'n angenrheidiol i roi atebion mewnlenwi ar waith mewn ardaloedd yng Nghymru lle ceir signal telathrebu gwael neu ddim signal o gwbl, yn cynnwys mewn ardaloedd gwledig.
- Mae wedi arwain at waith ymchwil yn ymwneud â phennu manau ar draws Cymru lle mae gwasanaethau ffonau symudol yn gyfyngedig, a lle gellir ystyried defnyddio atebion mewnlenwi fel Parthau Gweithredu Symudol.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-gweithredu-ffonau-symudol.pdf>



## Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (2017)

- Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu oddeutu 5% yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.
- Y gwahaniaeth o ran disgwyliad oes rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf yw oddeutu 8 mlynedd; mae'r gwahaniaeth o ran oes iach oddeutu 18 mlynedd. Yn ystod yr 50 mlynedd nesaf fe allai disgwyliad oes yng Nghymru gynyddu 15%.
- Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn tyfu'n gyflymach na'r boblogaeth, gan arwain at aelwydydd llai eu maint.
- Mae perfformiad GVA (gwerth ychwanegol gros) Cymru yn llai cadarnhaol oherwydd ffactorau demograffig (yn cynnwys poblogaeth ddibynnol iawn) a diffyg 'mas economaidd'.
- Mae gan Gymru botensial twf dihysbydd i gynhyrchu ynni, yn cynnwys o ffynonellau adnewyddadwy. Mae'r sector ynni carbon isel 'cymunedol' yng Nghymru yn parhau i dyfu.
- Mae seilwaith band eang yn datblygu, er gwaethaf heriau demograffig a'r nifer fawr o aelwydydd gwledig. Bydd twf o ran rhyngrwyd symudol o fudd i aelwydydd gwledig.
- Er gwaethaf y cynnydd yn y defnydd a wneir o drenau, cerbydau preifat fydd y dull teithio amlycaf yn y tymor byr i'r tymor canol. Fe allai cerbydau awtonomaidd fod â goblygiadau i'n systemau trafndiaeth.
- Mae seilwaith yn dod i gysylltiad cynyddol â pheryglon hinsawdd. Llifogydd yw'r risg fwyaf yn y tymor hir, ond mae risgiau yn sgil gwres, prinder dŵr ac ansefydlogrwydd llethrau hefyd yn cynyddu.

- Mae bioamrywiaeth a chynefinoedd Cymru dan bwysau cynyddol, ac mae adnoddau naturiol, gwytnwch ecosystemau a rhywogaethau yn parhau i ddirywio (SoNaRR 2016). Mae llygredd aer yn sgil trafndiaeth, amaethyddiaeth a gwresogi domestig yn bryder cynyddol.
- Mae'r angen am dai'n cynyddu gan fod nifer yr aelwydydd yn cynyddu ynghynt na'r eiddo sydd ar gael. Rhagwelir y bydd aelwydydd un person yn cynyddu fwy na 30% yn yr 20 mlynedd nesaf.
- Mae lefelau tlodi ychydig yn uwch yng Nghymru nag yn y DU. Mae tlodi ymhlith pobl hŷn a phobl sydd mewn tlodi parhaus wedi syrthio ychydig, tra bo tlodi ymhlith y rhai dan 18 oed wedi cynyddu.
- Mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng yng Nghyfrifiad 2011, ond yn fwy diweddar mae nifer y rhai sy'n siarad yn llai rhugl wedi cynyddu.
- Fe allai Brexit gael effaith sylweddol a phellgyrhaeddol ar Gymru.
- Bydd penderfyniadau'n ymwneud â gofal iechyd yn effeithio ar dueddiadau iechyd yn y dyfodol, yn cynnwys y polisiau ataliol posibl hynny sy'n ymwneud â salwch ffordd o fyw ac iechyd meddwl.
- Fe allai datblygiadau technolegol yn y dyfodol – fel deallusrwydd artiffisial (AI) a mwy o awtomatiaeth – effeithio ar strwythur yr economi. Mae'r risgiau'n cynnwys llesiant y boblogaeth yn y dyfodol a'r posibilrwydd o golli swyddi. Fe allai datblygiadau technolegol wella effeithiolrwydd ac argaeledd ynni carbon isel.
- Fe allai datblygiadau mewn technolegau aelwydydd, trafndiaeth ac ynni gael effaith drawsnewidiol ar ymddygiad y boblogaeth, dros gyfnodau gweddol fyr.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170505-future-trends-report-2017-cy.pdf>

## Digwyddiadau ymgysylltu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Ionawr/Chwefror 2017

- Trefnwyd y digwyddiadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r FfDC, casglu barn ynghylch y materion y dylid ymdrin â nhw, tynnu sylw at yr Alwad am Dystiolaeth a'r Prosiectau, a rhoi cyfle i bobl ofyn cwestiynau.
- Dyma'r prif ymatebion i'r ymgynghoriad mewn perthynas â materion gwledig:
  - dylai'r FfDC ganolbwyntio ar dwristiaeth fel cyfle economaidd allweddol ar gyfer Cymru gyfan
  - rhaid i'r FfDC gynnig gweledigaeth a strategaeth ar gyfer yr economi wledig, gan gefnogi amaethyddiaeth a choedwigaeth. Dylai gwytnwch gwledig fod yn thema allweddol. Dylai gydnabod y bydd angen atebion gwahanol ar gyfer rhai materion
  - dylai'r FfDC gefnogi twf sy'n creu gyrfaedd, nid swyddi'n unig, yn enwedig yn y Gymru wledig lle mae pobl ifanc yn aml yn gadael er mwyn camu ymlaen yn eu gyrfa
  - dylai'r FfDC gefnogi amcanion y Gymraeg a chyfleoedd economaidd mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Yn aml, pobl sy'n gadael i chwilio am waith yw un o'r prif faterion sy'n effeithio ar yr iaith
  - dylai'r FfDC gefnogi'r sector amaethyddol ac ymateb i heriau Brexit. Fe fydd arallgyfeirio gwledig yn fater o bwys yn y dyfodol, a rhaid paratoi ar ei gyfer
  - rhaid i'r FfDC helpu i greu sylfaen economaidd ar gyfer Canolbarth Cymru.

## Materion, Opsiynau ac Opsiwn a Ffefrir y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Crynodeb o'r Ymgynghoriad, Mehefin (2019)

- Cafodd ymgynghoriad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) – sef 'Materion, Opsiynau ac Opsiwn a Ffefrir' – ei gynnal rhwng 30 Ebrill a 23 Gorffennaf 2018. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, gan nodi'r camau nesaf.

Dyma'r prif ymatebion i'r ymgynghoriad mewn perthynas â materion gwledig:

- Yr angen am feini prawf ar gyfer pennu bod ardal yn 'wledig'.
- Mynegwyd pryderon ynghylch agweddau penodol ar yr Opsiwn a Ffefrir mewn perthynas â'r amcanion, yn cynnwys yr angen i gyfeirio'n fwy grymus at y Gymru wledig.
- Mynegwyd pryderon ynghylch y modd y caiff ardaloedd gwledig eu trin o'u cymharu ag ardaloedd trefol – yn enwedig o ran rhoi'r un cyfleoedd i ardaloedd gwledig elwa ar ddatblygu economaidd ag a roddir i ardaloedd trefol.
- Mae Cymru Wledig angen agenda gynhwysfawr ar gyfer y Gymru wledig, fel y gellir ymdrin â goblygiadau Brexit a newid hinsawdd.